**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A487 (FFIN SIROL SIR BENFRO/CEREDIGION GER ABERTEIFI, CEREDIGION HYD AT FFIN SIROL POWYS/GWYNEDD WRTH BONT AR DDYFI, POWYS) (CYFYNGIADAU CYFLYMDER DROS DRO A DIM GODDIWEDDYD) 2022**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A487, neu gerllaw iddi, rhwng man i'r de o Aberteifi, Ceredigion a Phont ar Ddyfi, Powys.

Effaith y Gorchymyn yw gosod terfyn cyflymder dros dro o 40 mya, 30 mya neu 10 mya ar y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ffin sirol Sir Benfro/Ceredigion, yn gyfagos i'r annedd o'r enw Gamallt, man i'r de o Aberteifi hyd at ffin sirol Powys/Gwynedd wrth Bont ar Ddyfi, i'r gogledd o Fachynlleth, Powys. Dim ond yn ystod gwaith confoi y bydd y terfyn cyflymder o 10 mya yn gymwys a ni chaniateir goddiweddyd ar yr adegau hynny.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 27 Chwefror 2022. Disgwylir y bydd y cyfyngiadau a'r gwaharddiad dros dro, y bydd eu hyd a'u lled yn amrywio, yn weithredol yn ysbeidiol o 08:00 o'r gloch ar 27 Chwefror 2022 am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw waith yn ystod y cyfnod hwn yn cael ei arddangos cyn i unrhyw waith ddechrau.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A487 TRUNK ROAD (PEMBROKESHIRE/CEREDIGION COUNTY BOUNDARY, NEAR CARDIGAN, CEREDIGION TO THE POWYS/GWYNEDD COUNTY BOUNDARY AT DYFI BRIDGE, POWYS) (TEMPORARY SPEED RESTRICTIONS & NO OVERTAKING) ORDER 2022**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A487 trunk road between a point south of Cardigan, Ceredigion and Dyfi Bridge, Powys.

The effect of the Order is to impose a temporary 40 mph, 30 mph or 10 mph speed limit on the length of the A487 trunk road that extends from the Pembrokeshire/Ceredigion county boundary, adjacent to the dwelling known as Gamallt, south of Cardigan to the Powys/Gwynedd county boundary at Dyfi Bridge, north of Machynlleth, Powys. The 10 mph speed limit will only apply during convoy working and no overtaking will be permitted at these times.

The Order comes into force on 27 February 2022. The temporary restrictions and prohibition, whose extent will vary, are expected to operate on an intermittent basis from 08:00 hours on 27 February 2022 for a maximum duration of 18 months. Advance notice of any works during this period will be displayed before they start.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government